# CYNGOR SIR

# DYDD MERCHER, 12 MAI 2021

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd I.W. Davies (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:-

| | | | |
|---|---|---|---|
| F. Akhtar | S.M. Allen | L.R. Bowen | K.V. Broom |
| C.A. Campbell | J.M. Charles | D.M. Cundy | S.A. Curry |
| C.A. Davies | W.R.A. Davies | T.A.J. Davies | G. Davies |
| H.L. Davies | J.A. Davies | K.Davies | S.L. Davies |
| E. Dole | J.S. Edmunds | D.C. Evans | H.A.L. Evans |
| L.D. Evans | R.E. Evans | W.T. Evans | S.J.G. Gilasbey |
| P. Hughes-Griffiths | A.D. Harries | T.M. Higgins | J.K. Howell |
| P.M. Hughes | A. James | J.D. James | R. James |
| D.M. Jenkins | J.P. Jenkins | G.H. John | C. Jones |
| B.W. Jones | D. Jones | G.R. Jones | H.I. Jones |
| T.J. Jones | A. Lenny | M.J.A. Lewis | K. Lloyd |
| K. Madge | S. Matthews | A.S.J. McPherson | E. Morgan |
| A.G. Morgan | S. Najmi | D. Nicholas | J.S. Phillips |
| D. Price | J.G. Prosser | B.A.L. Roberts | E.M.J.G. Schiavone |
| H.B. Shepardson | A.D.T. Speake | L.M. Stephens | B. Thomas |
| D. Thomas | E.G. Thomas | G.B. Thomas | G. Thomas |
| J. Tremlett | A.Vaughan Owen | D.T. Williams | D.E. Williams |
| J.E. Williams | | | |

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-**
W. Walters, Prif Weithredwr
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
J. Hawker, Swyddog Cymorth Digidol
C.J. Warwick, Peiriannydd Cymorth Digidol
L. Jenkins, Swyddog Cefnogi Bwrdd Gweithredol
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod - 10.00 yb - 10.55 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr P. M. Edwards, A.L. Fox a B.D.J. Phillips.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| L.D. Evans | 7.2 - Cynnig y Rhaglen Moderneiddio Addysg i adleoli Ysgol Heol Goffa i safle newydd a chynyddu nifer y lleoedd o 75 i 120. | Mab-yng-nghyfraith yn gweithio yn Ysgol Heol Goffa. |
| L.M. Stephens | 8.3 - Derbyn adroddiad cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2021 (Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2021/22). | Aelod o'r teulu yn gymwys ar gyfer Ardrethi Busnes |
| H.A.L. Evans | 8.1 - Derbyn adroddiad cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 22 Chwefror 2021 (Cyfrif Refeniw Tai). | Ei chwaer yn Brif Weithredwr Cymdeithas Tai. |
| S.J. G. Gilasbey | 8.1 - Derbyn adroddiad cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 22 Chwefror 2021 (Cyfrif Refeniw Tai). | Aelod o'r teulu'n denant i'r Cyngor |
| P.M. Hughes | 8.3 - Derbyn adroddiad cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2021 (Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2021/22). | Yn byw ar safle busnes. |

| | | |
|---|---|---|
| E. Dole | 8.3 - Derbyn adroddiad cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2021 (Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2021/22). | Aelod o'r teulu yn gymwys ar gyfer Ardrethi Busnes |

## 3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.

- Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi ysgrifennu at Ei Mawrhydi y Frenhines i gyfleu cydymdeimlad dwysaf Cyngor Sir Caerfyrddin yn dilyn marwolaeth Ei Uchelder Brenhinol Dug Caeredin.
- Atgoffodd y Cadeirydd y Cyngor fod y Lleng Brydeinig Frenhinol, Llandeilo wedi colli ei Llywydd / Cyn-gadeirydd a'i chefnogwr gydol oes, D T Davies, OBE, MM yn 2020. Rhoddwyd gwybod bod y Lleng Brydeinig Frenhinol, Llandeilo yn codi arian ar gyfer meinciau coffa. Y bwriad yw gosod un ym Mharc Penlan, Llandeilo a'r llall yn Nryslwyn. Byddai'r meinciau yn coffáu dyn mawr a hefyd y Lleng Brydeinig Frenhinol, sy'n dathlu 100 mlynedd eleni. Byddai'r Cynghorydd Edward Thomas (Cadeirydd Cangen Llandeilo) yn croesawu unrhyw roddion.
- Rhoddwyd gwybod bod yna dân difrifol yn y tŷ yn Talar Wen, Pencarreg, ddydd Mercher, 5 Ebrill lle collodd y preswylydd bob dim, ond yn ffodus, ni chafodd hi a'i mab eu hanafu. Roedd swyddogion o'r Adran Tai wedi bod yn gweithio gyda nhw i ddod o hyd i lety arall. Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolch diffuant i bawb oedd yn gysylltiedig â’r mater.
- Mynegodd y Cadeirydd ei longyfarchiadau i Glybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin ar eu llwyddiant diweddar wrth ennill cystadleuaeth siarad cyhoeddus Saesneg a siarad cyhoeddus Cymraeg ar lefel Cymru.
- Mynegodd y Cynghorydd Jeanette Gilasbey ei llongyfarchiadau i Jonathan Gravell ar ddod yn Uchel-Siryf nesaf Dyfed.
- Mynegodd y Cynghorydd Emlyn Dole ei longyfarchiadau i bawb a safodd yn yr etholiadau diweddar a diolchodd i'r asiantau a'u cefnogodd. Mynegwyd llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Cefin Campbell ar gael ei ethol yn Aelod o’r Senedd dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru. Croesawyd y Cynghorydd Ann Davies hefyd fel yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau a Materion Gwledig.
- Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Jim Jones yn ôl yn dilyn cyfnod o salwch.

## 4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNOD CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR:

### 4.1. 3 MAWRTH 2021

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2021 yn gofnod cywir.**

### 4.2. 10 MAWRTH 2021

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2021 yn gofnod cywir.**

## 5. YSTYRIED ENWEBU CADEIRYDD Y CYNGOR AR GYFER BLWYDDYN Y CYNGOR 2021/2022

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL enwebu'r Cynghorydd J. Eirwyn Williams yn Ddarpar Gadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021/22.**

## 6. YSTYRIED ENWEBU IS-GADEIRYDD Y CYNGOR AR GYFER BLWYDDYN Y CYNGOR 2021/2022

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL enwebu'r Cynghorydd K. Lloyd yn Ddarpar Is-Gadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021/22.**

## 7. YSTYRIED ARGYMHELLION Y BWRDD GWEITHREDOL O RAN Y MATERION CANLYNOL:-

### 7.1. STRATEGAETH GORFFORAETHOL 2018/23 - DIWEDDARIAD EBRILL 2021

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2021 (gweler cofnod 6) wedi rhoi ystyriaeth i adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth am yr addasiadau a wnaed i Strategaeth Gorfforaethol 2018-23 a’r Amcanion Llesiant a fabwysiadwyd ym mis Mehefin 2018. Gwnaed yr addasiadau i adlewyrchu'r blaenoriaethau sy'n datblygu, effaith Pandemig Covid-19, Brexit a newid yn yr hinsawdd.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu argymhelliad y Bwrdd Gweithredol y dylai'r Strategaeth Gorfforaethol a'r Amcanion Llesiant a fabwysiadwyd ym mis Mehefin 2018 gael eu haddasu, fel yr adroddwyd, i adlewyrchu blaenoriaethau sy'n datblygu ac effaith y pandemig Covid-19, Brexit a newid yn yr hinsawdd**.

### 7.2. RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG - CYNNIG I ADLEOLI YSGOL HEOL GOFFA I SAFLE NEWYDD A CYNYDDU CAPASITI O 75 I 120

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd L.D. Evans wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Bwrdd Gweithredol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2021 (gweler cofnod 6) wedi ystyried adroddiad ar gynigion i adleoli Ysgol Heol Goffa erbyn Medi 2023 i safle newydd wrth ymyl Ysgol Pen Rhos a gwblhawyd yn ddiweddar a chynyddu ei chapasiti o 75 i 120.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:-**
**ar y sail ganlynol:**

- **nad oes unrhyw gynigion cysylltiedig eraill;**
- **bod ymgynghoriad wedi’i gynnal ynghylch y cynnig statudol a chafodd ei gyhoeddi yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion ac roedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol ac, ar ôl ystyried y ddogfen ymgynghori a'r adroddiad ymgynghori;**
- **ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau mewn ymateb i'r Hysbysiad Statudol;**

**bod y cynigion felly i adleoli Ysgol Heol Goffa a chynyddu ei chapasiti o 75 i 120, fel y nodir yn yr Hysbysiad Statudol, yn cael eu rhoi ar waith.**

### 7.3. CYLCH GWAITH BWRDD PENSIWN CRONFA BENSIWN DYFED

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Bwrdd Gweithredol yn ei gyfarfod ar 26 Ebrill (gweler cofnod 6) wedi ystyried adroddiad yn diwygio Cylch Gwaith Bwrdd Cronfa Bensiwn Dyfed.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL y dylid mabwysiadu argymhellion y Bwrdd Gweithredol i gymeradwyo cylch gorchwyl diwygiedig Bwrdd Cronfa Bensiwn Dyfed, fel y nodwyd yn yr adroddiad, a'i gynnwys yng nghyfansoddiad y cyngor.**

## 8. DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALIWYD AR:-

### 8.1. 22 CHWEFROR 2021

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr H.A.L Evans a S.J.G Gilasbey wedi datgan buddiant ar ddechrau'r eitem hon].

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 22 Chwefror 2021.**

### 8.2. 22 MAWRTH 2021

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2021.**

### 8.3. 12 EBRILL 2021

[SYLWER: 1. Roedd y Cynghorydd L.M. Stephens wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.
2. Roedd y Cynghorwyr P. M. Hughes ac E. Dole wedi datgan buddiant ar ddechrau'r eitem hon].

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2021.**

## 9. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 10. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan aelodau.

## 11. COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)

Dywedodd y Cadeirydd fod y cofnodion a amlinellir ar agenda 11.1 – 11.18 ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor.

| ________________________ | ________________________ |
|---|---|
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |